COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Ionawr 11eg, 2017 am saith o'r gloch

PRESENNOL

John Gwilym Jones (Cadeirydd), Alun Jones (Is-gadeirydd), John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, O. Hefin Roberts, Cynghorwyr R.H. Wyn Williams a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Thelma Cordingley, Erfyl W. Roberts, R. Phillip Roberts, William B. Williams

Dymunodd y Cadeirydd flwyddyn newydd dda wrth groesawu pawb i'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Clerc na lwyddodd gael ymateb mewn pryd i rai o'r materion a godwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr oherwydd gwaeledd ei thad.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant personol.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ragfyr 14eg, 2016 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/1535/39/LL	Newid defnydd tir i ymestyn gardd, adeiladu llwyfan bren, sied bren a chreu man troi cerbydau – Y Felin, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/1548/39/LL	Adeiladu estyniad unllawr cefn â balconi uwchben llwyfan cefn, porth blaen â balconi uwchben a modurdy – Bryn Onnen, Lôn Engan, Aber-soch – **Cefnogir**
C16/1640/39/LL	Adeiladu sied bren – Pentraeth, Aber-soch – **Cefnogir**
C16/1645/39/LL	Codi uchder to bynglo er creu ystafelloedd a balconi llawr cyntaf ar edrychiad blaen **–** 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn **– Gwrthwynebir oherwydd buasai'n creu cynsail i ystád o fynglos ac mae'n groes i Bolisïau B21-22**
C16/1665/39/LL	Estyniad ochr arfaethedig – Bodnant, Bwlchtocyn – **Cefnogir**
C16/1673/39/LL	Dymchwel tŷ annedd deulawr presennol a modurdy ac

adeiladu tŷ annedd deulawr newydd a phorth car – Y Fras, Mynytho **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus Tyddyn Callod, Aber-soch**

i) Bwriadwyd ymweld â chyfreithiwr y Cyngor i ofyn am ei gyngor parthed drysau'r toiledau fory ond, fe'i gohiriwyd am y tro.

ii) ***Gwasanaeth Trethi – Gwerth Ardrethol Drafft***
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

iii) **E-bost Cyng. Wyn Williams – Toiledau'r Cyngor**
Copi o ohebiaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd, er gwybodaeth, parthed gosod offer tâl mynediad cyn trosglwyddo'r toiledau – awyddus gwneud ond, rhaid sicrhau arian cyfalaf. Cyflwynwyd ail gais am nawdd Ewropeaidd i'w huwchraddio, ynghyd â chais o Gynllun Rheoli Asedau 2 y Cyngor.

iv) Crybwyllwyd efallai y bydd angen peiriant newydd i'r toiledau yn gyffredinol pan ddaw'r darn punt newydd i gylchrediad ym mis Mawrth.

b) **Glanhau Afon Soch**
Ni lwyddwyd mesur tir y Cyngor yn ystod y gwyliau.

c) **Cheshire Lamont – Enw Datblygiad Gwesty'r Harbwr**
Cydnabod derbyn e-bost arall yn unig a wnaeth y Tîm Enwi Tai a Strydoedd. Derbyniwyd copi o restr gosod mesurwyr trydan y datblygiad oddi wrth Cyng. Wyn Williams – 'Hafan yr Harbwr' yw'r enw a roddir arno a rhif i'r pedwar 'fforddiadwy' sydd ar Lôn Engan.

ch) **Archwiliad Cyfrifon 2015 – 2016 Cwmni BDO**
Derbyniwyd llythyr oddi wrth BDO yn nodi yr anfona'r Swyddfa Archwilio anfoneb.

d) **Graddfeydd Cyflogau Clercod 2016 – 2018**
Deil trafodaethau rhwng y Cadeirydd a Swyddog ULlC i benderfynu union bwynt cyflog y Clerc o fewn y raddfa.

[Gadawodd Cyng. John B. Hughes y cyfarfod ar ôl yr eitem uchod.]

dd) **Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch**

- Ni lwyddwyd cynnal cyfarfod arall o'r Is-bwyllgor i wirio adolygiad o Reolau'r Fynwent – gobeithir gwneud cyn cyfarfod mis Chwefror.
- Derbyniwyd cydnabyddiaeth i'r llythyr ymddiheuro oddi wrth y cwynwyr a dymunent dderbyn copi o ymateb yr ymgymerwr/torrwr beddau pe derbynia'r Cyngor un oddi wrtho.

e) **Ceisiadau Cynllunio – C16/0629/39/LL – Diddymu Amodau 3 a 4 o Ganiatâd Cynllunio C13/0594/39/LL er mwyn defnyddio uned wyliau bresennol fel tŷ annedd – Tafliad Carreg, Llysfor, Aber-soch**
Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Swyddog Cynllunio am beidio ag ymateb ynghynt; nodia "Sylweddolwn eich pryderon, fodd bynnag petai cais wedi ei dderbyn i drosi'r adeilad yn annedd parhaol byddai'n rhaid ei asesu dan bolisi CH11 sy'n caniatáu trosi i dŷ o frewn ffin ddatblygu. Ar sail hynny, byddai wedi bod yn anodd gwrthod y cais." Derbyniwyd copi o ohebiaeth a dderbyniodd Cyng. Wyn Williams oddi wrth Gwenan Jones, Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu, yn nodi'r un sylw.

f) **Cyng. Wyn Williams – Cae Chwarae Aber-soch**
Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod pan oedd y noddwr yn yr ardal dros y gwyliau.

ff) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**
Ni chysylltodd Clorian Cymru â'r Clerc i roi manylion y costau ac ati.

g) **Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Eich Ardal Chi – Beth sy'n Bwysig?**
Ni lwyddwyd ysgrifennu at Brif Weithredwyr y Bwrdd Iechyd a Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru i holi beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf am Feddygfa Aber-soch ac ategu'r pryder.

5. **CYFRIFON/PRAESEPT 2017 – 2018**

Yn dilyn trafodaeth fanwl ar wariant tebygol y flwyddyn ariannol nesaf ar ôl defnyddio rhestr y penawdau a ddefnyddia'r Cyngor ar hyn o bryd (gweler Atodiad), gan na luniwyd cyllideb benodol o'r blaen, penderfynwyd cadw praesept 2017 – 2018 yn £50,000 a derbyniwyd y rhestr a baratowyd (gweler Atodiad). Mynegwyd na wyddom beth sydd o'n blaenau o ran trosglwyddo gwasanaethau ac ati er cynyddu'r praesept y llynedd, yn unol ag awgrym Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yng nghyfarfodydd Her Gwynedd.

6. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd cais cynllunio tystysgrif cyfreithloni.

7. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Materion Cynnal a Chadw yn y Gymuned**
i) ***Mainc Sarn Bach*** – Trosglwyddodd Antur Aelhearn i Goleg Meirion Dwyfor Glynllifon ac er cysylltu i holi os gwneir meinciau o hyd, ni dderbyniwyd ateb.
ii) ***Coed ger Ysgubor Wen*** – ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiad beth sy'n digwydd o ran eu tocio, gan na wnaed hyd yma.

b) **Rhybudd Cau Ffordd y B4415 gyferbyn â Ffatri, Nanhoron**
Cwblhawyd y gwaith erbyn hyn.

8. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Talwyd £45.00 i I.W. Evans am '2 Road Barriers' ar Chwefror 15fed, 1978. Penderfynwyd gofyn i Huw Jones, Rhydyclafdy, am bris i osod ffens newydd.

b) ***Torri'r Llwybrau 2017***
Gan na dderbyniwyd ateb oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, penderfynwyd y dylid hysbysebu cyn gynted â phosibl.

9. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Bwletin mis Rhagfyr*** – Copi er gwybodaeth neu weithrediad; argraffir unrhyw wybodaeth o bwys.
ii) ***Hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol – Estynedig***
Cwrs a gynhelir yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth, nos Iau, Chwefror yr ail rhwng 6 a 9.30 o'r gloch – mwy o wybodaeth o ran yr archwiliad allanol blynyddol; y Clerc am ei fynychu, os yn bosibl. £35.00 yw'r gost.
iii) ***Cyfleoedd Hyfforddiant***
Arolwg o fodiwlau cyrsiau mis Ionawr er gwybodaeth.

b) **Llywodraeth Cymru**
i) ***Gwariant Adran 137: Y Terfyn ar Gyfer 2017 – 2018***
Llythyr yn hysbysu mai £7.57 yw'r swm priodol am bob etholwr yn y flwyddyn ariannol nesaf.
ii) ***Etholiadau Cynghorau Cymuned a Thref 2017***
Taflen i godi ymwybyddiaeth ac annog cyfranogaeth yn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhelir ym mis Mai.
iii) ***Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Digwyddiad Rhanbarthol***
Llythyr yn nodi dyddiadau'r uchod – cynhelir un y Gogledd yn Venue Cymru, Llandudno fore Iau, Ionawr 26ain rhwng 10.30 a 12.30 o'r gloch – y Clerc am geisio ei fynychu.

c) **Ken Gibbon – Bench/Vicky Clough – Mainc Goffa**
Ymholiad oddi wrth yr uchod i leoli meincau er cof am anwyliaid – fe'u hatebwyd drwy awgrymu iddynt gysylltu â Phwyllgor yr Harbwr i holi ymhellach.

ch) **Wayforward (Shropshire) Limited – Gwaith tanddaearu llinell 11kv ScottishPower ar Dir Comin Mynytho (Tan y Graig i Dan y Fron)**
Ffurflenni 'wayleave' i'w harwyddo a'u dychwelyd ar gyfer yr uchod – £31.90.

d) **Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2015 – 2016**
Copi, er gwybodaeth, o'r uchod.

dd) **Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Siawns i Ddeud eich Deud am Blismona**
Hysbyseb am ddigwyddiad a gynhelir ym Mhlas Heli, Pwllheli, nos Iau, Ionawr 26ain am 6.30 i drafod yr uchod.

e) **Gwasanaeth AHNE Llŷn – Taith Bardd Mewn Bws, Chwefror 12fed**
Poster, er gwybodaeth, am yr uchod a drefnir gan Ganolfan Tŷ Newydd, Llanystumdwy ac a dderbyniodd nawdd o Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn. Trefnwyd digwyddiadau tebyg ac anfonir posteri i'w hysbysebu pan dderbynnir hwy.

10. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C16/0974/39/LL	Addasu adeilad allanol yn ddwy uned wyliau – Ty'n y Cae, Llangian – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1104/39/LL	Adeiladu strwythur canopi (to a waliau) dros ardal decio allanol presennol – Zinc Café and Bar, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C16/1402/39/LL	Estyniad llawr cyntaf a balconi i'r blaen ac addasiadau i ffenestr gromen – Angorfa Bach, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1504/39/LL	Estyniad unllawr ochr, adeiladu storfa gardd newydd ac addasiadau – Grinallt, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

11. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Ionawr y Clerc (Rh/S 002034), ynghyd â'r taliad a ganlyn:

a) Bacstal PAC – £93.91 (Rh/S 002033 – Gwasanaeth Paratoi Cyflog)

Derbyniadau
a) Arian Mynediad y Toiledau – £25.30

12. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Chwefror 8fed, 2017 am saith o'r gloch